# DYFODOL I’R IAITH

**Sylwadau ar Ymgynghoriad**

**Ymgynghoriad ar ail ddogfen adneuo Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin 2018 – 2033**

**Ebrill 2023**

**Cyswllt:**

**Wyn Thomas**

[redacted]

**Adran Blaengynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin :**

## Ymateb aelodau Dyfodol i'r Iaith yn Sir Gaerfyrddin i'r 2il fersiwn Adneuo Cynllun Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033

**Cynllunio a "Datblygwyr"**

**Cyfnewid Poblogaeth**

Peth rhyfedd yw iaith, fel y gwyddom. Pwy yn ei iawn bwyll sydd yn gwrthwynebu datblygiad? Ond pe byddem yn holi nifer o bobl sydd wedi ymwneud â'r gyfundrefn gynllunio yn ddiweddar, byddem yn debygol o ddod ar draws sawl un sydd wedi colli eu pwyll.

Methodd cwmni Carillion yn 2018 oherwydd amddiffyn taliadau bonws i'r Cyfarwyddwyr, dulliau cyfrif anaddas a thalu sylw hollol annigonol i'r cynllun pensiynau. Gadawyd nifer sylweddol o adeiladau gan gynnwys ysbytai yn anorffenedig. Syrthiodd y gost o orffen adeiladuy y Royal Liverpool Hospital ar ysgwyddau'r trethdalwyr.

Adeiladwyd tai niferus ar wlyptiroedd ac ar ben siafftiau glo gan "ddatblygwyr" yng Nghymru a thu hwnt.

Mae cwmni Persimmon wedi adeiladu nifer sylweddol o dai yn y sir. Talwyd £7,000,000 i gyn Brif Weithredwr y cwmni, Jeff Fairburn, mewn bonws dros y blynyddoedd. Dyma'r cyfanswm mae'r un cwmni yn barod i'w dalu i adfer y peryglon ar naw safle lle wnaethant adeiladu tai anniogel.

Nid caenennau/ cladding, yw'r unig elfen beryglus mewn cartrefi yn y DG. Amcangyfrifir bod tua 700,000 o bobl yn byw mewn fflatiau anniogel a hyd at 3 miliwn arall mewn cartrefi nad oes modd sicrhau morgais arnynt am eu bod yn anniogel. Y "datblygwyr" a rheolau'r Llywodraeth sydd yn gyfrifol am y sefyllfa annerbyniol yma.

Cyflwynodd Llywodraeth San Steffan becyn o arian i gynorthwyo tua 200,000 o fflatiau sydd yn y tyrau uchaf. Gwnaethant hyn dan bwysau cyhoeddus. Cyndyn iawn oedd y "datblygwyr" i dderbyn cyfrifoldeb a chynnig iawndal i'r tenantiaid. Rhoddwyd degawd i'r diwydiant adeiladu dalu y £2biliwn o dreth caenen.Dim ond yn ddiweddar oherwydd bygythiadau y Gweinidog yn San Steffan i'w tynnu oddi ar rhestr y cwmniau cymeradwy, mae'r cwmniau wedi bwrw ati o ddifrif i ddatrys y problemau grewyd ganddynt. Ond ers trychineb Grenfell, pan losgwyd 72 o bobl i farwolaeth, ym Mehefin 2017, gwnaeth y pum cwmni adeiladu mwyaf £10 biliwn o elw. Rhywle yn swyddfeydd cyngor Kensington and Chelsea mae cais i "ddatblygu" Grenfell Towers.

**Mae'n hen bryd bod yn llawer mwy amheus o "ddatblygwyr" a'u honiadau gwag ac ymddiried mewn cwmniau lleol i ateb gofynion lleol.**

**Oes angen cymaint o dai?**

**Nac oes.**

Mae ymchwil gan Ian Mulheirn yn dangos bod y cyflenwad tai fel cyfanswm, yn ddigonol. Mae Mulheirn yn gyn economegydd yn y Trysorlys, a Chyfarwyddwr Ymgynghori gyda Oxford Economics. Bellach, mae'n Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Economegydd gyda "Renewing the Centre" Sefydliad a grewyd gan y cyn Brif Weinidog, Tony Blair.

Yn 2019 cyhoeddodd "Tackling the UK Housing Crisis – is supply the answer?". Mae'n canolbwyntio ar Loegr ond mae'n cyfeirio at Gymru. Rhag i mi gam gyfieithu, dyma graidd ei ddadl:

***" It is commonly claimed that we have failed to build enough houses to meet the demand for places to live.. But official data suggests this is not the case since the 1996 nadir of house prices, the English housing stock has grown by 168,000 units per year on average, while the growth in the number of households has averaged 147,000 per year. As a result, while there were 660,000 more dwellings than households in England in 1996, the surplus has since grown to over 1.1million in 2018.***

***Similar trends are apparent in Scotland where a surplus of 74,000 in 1996 had more than doubled to 169,000 by 2017.***

***And in Wales the surplus increased from 56,000 to 92,000."***

Mae dogfen "D*welling Stock Estimates, Llywodraeth Cymru"* Tachwedd 2019 yn ategu dadansoddiad Mulheirn:
***"The figures seem to suggest that in 2019 there may have been a sufficient number of dwellings for the overall number of households in Wales"*** **[tudalen 4]**

Mae'r Adran Blaengynllunio yn honni ei fod yn craffu'n ofalus ar rhagamcanestyniadau'r Llywodraeth sydd yn ymwneud â phoblogaeth. Nid yw'n ymddangos bod digon o sylw wedi ei roi i'r dadansoddiad arbennig yma.

Mae Mulheirn yn priodoli'r sefyllfa gwbl gamarweiniol hyn i amcanestyniadau gwallus gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Llywodraeth, sef yr asiantaethau y mae'r adrannau Blaengynllunio yn seilio ffigurau arnynt. Am ddegawdau, bu gor amcangyfrif y twf yn niferoedd yr aelwydydd. Canlyniad hyn oedd gor amcangyfrif cyfanswm y tai oedd eu hangen. Er fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cydnabod y gwendid yn ddiweddar ac addasu'r ffigurau, mae Mulheirn o'r farn bod yr amcangyfrif yn dal i fod tua 15,000 y flwyddyn yn ormodol.
Nid yw'n gwadu nad oes problemau penodol megis di-gartrefedd, yr angen am dai cymdeithasol a thai fforddiadwy ond yn gyffredinol nid oes angen adeiladu miloedd o dai yn y DG ac yn sicr ddim yn y sir yma. Yn y cyfarfod ddiwedd 2020 mi wnaeth Adran Tai y Cyngor ateb y cwestiynau am ddarparu tai sydd yn ateb gofynion penodol y sir.
**A yw'n amser i ystyried cyfuno'r Adran Tai a'r Adran Blaengynllunio gan ddeall mae anghenion pobl y sir ac nid "datblygwyr" sydd i hawlio blaenoriaeth bellach?**

**Y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin:**
Pe bai poblogaeth y sir yn cynyddu oherwydd twf naturiol y boblogaeth gynhenid a swyddi niferus i gynnal pobl y sir, byddai angen mwy o dai, a gydag amser ac ymdrech byddai modd troi'r trai ieithyddol yn llanw, a gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Ond nid fel yna mae.
Ers 2001 mae graddfa marwolaethau y sir wedi bod yn uwch na'r raddfa genedigaethau.
Mae'r un pwynt yn cael ei wneud yn yr Asesiad Iaith, ddiwedd 2019, dogfen mae'r Adran Blaengynllunio yn honni ei fod wedi talu sylw i'w chynnwys. Dyma ddyfyniad o'r Asesiad Iaith:

***" Yng nghyfnod 2017/18 cofrestrwyd y nifer fwyaf o farwolaethau ers 2001*** [Atodiad 2.4, pwynt 9].
Os yw raddfa marwolaethau yn gyson uwch na'r raddfa genedigaethau, ac o gofio am yr allfudo sylweddol, byddai disgwyl i boblogaeth y sir syrthio. Nid dyna ddigwyddodd. Mae dogfen drafft cyntaf y CDLl yn egluro:
***"Y prif ffactor sydd wedi dylanwadu ar newid i boblogaeth Sir Gaerfyrddin ers 2001/2 yw mewnfudo, lle mae mwy o bobl wedi symud i'r sir nag sydd wedi gadael"***

Mae'r adroddiad Asesiad Iaith yn cadarnhau'r patrwm:
***"mudo mewnol net yw sbardun mwyaf yn newid yn y boblogaeth o hyd. Gwelwyd cynnydd sydyn yn lefel y mewnlif net, a gyrhaeddodd tua +1,600 yn 2017/18, a gwelwyd cynnydd sylweddol o fwy na 700 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol"***

Mae dogfen drafft CDLL ddiweddaraf y Cyngor Sir yn tanlinellu parhad y patrwm
***"Ers 2011, mae poblogaeth y sir wedi tyfu o ganlyniad i 4,100 o bobl ychwanegol, sef cynnydd o 2.2% mewn 10 mlynedd. Y prif ffactor sydd wedi dylanwadu ar y newid i boblogaeth Sir Gaerfyrddin ers 2001/2 yw mewnfudo.....Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sydd yn heneiddio gyda nifer y marwolaethau yn fwy na genedigaethau bob blwyddyn ers 2001/2.***

***Cafwyd cynnydd mewn pobl yn symud i mewn i'r sir o fewn y grŵp oedran teulu ifanc 30-44 a grŵp oedran 0-14. Cafwyd cynnydd hefyd yn y grŵp oedran dros 65, stdd wedi cyfrannu at broffil poblogaeth sy'n heneiddio"***

Tystiolaeth bellach o boblogaeth yn heneiddio yw ffigurau y plant sydd yn mynychu ysgolion cynradd y sir sydd yn disgyn dros y blynyddoedd:
2016 = 2120 ; 2017 =2065 ; 2018= 1995; 2019 + 1950; 2020+ 1965 a 2021 +1915

*****Mae'r dystiolaeth yma, gomisiynwyd gan y Cyngor Sir, yn dangos y perygl i'r Gymraeg o or adeiladu. Nid yw'r Cynllun Datblygu drafft yn un credadwy , yn wyneb tystiolaeth yr Asesiad Iaith na thystiolaeth y Cyngor Sir*****

Digwyddodd y Cyfrifiad ym mis Chwefror 2021 adeg y pandemig. Er nad oes gennym ffigurau swyddogol mae'n amlwg bod nifer ychwanegol o fewnfudwyr wedi dod i'r sir, fel siroedd eraill y gorllewin, yn chwilio am gartrefi mewn ardal llai poblog ac anheddau â gardd neu dir.

Heblaw am yr Asesiad Iaith, mae'r Adran Blaengynllunio yn honni talu sylw i farn a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Wrth edrych ar y Strategaeth a Ffefrir gan yr Adran Blaengynllunio [ystyriwyd a gwrthodwyd strategaethau amgenach ..gweler isod] mi wnaeth Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru sylwadau i'w hystyried.
***"mae angen i ganlyniad lefel/dosbarthiad y twf a gynigir ar gyfer y Gymraeg gael ei egluro yn enwedig gan fod lefelau uchel o fewnlifiad ac ymfudo rhyngwladol yn y gorffennol yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau'r gofyniad am dai"*** [Methodoleg Asesu'r Effaith ar y Gymraeg –tud. 23/4]
Dyna'r gwirionedd. Adeiladu tai ar gyfer mewnfudwyr yn bennaf sydd wedi digwydd yn y sir, a hynny pan fo cyflenwad cyffredinol digonol o dai yn sir Gaerfyrddin. Mae ffigurau diweddaraf y Cyngor Sir yn nodi bod ychydig llai na 2,000 o dai gwag yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Adran Tai yn gwneud cynnydd wrth osod nifer o'r tai gwag ar gyfer trigolion y sir. Ond o ystyried y tai ar werth hefyd, sydd ar gael ar gyfer unrhyw dwf economaidd, pa mor debygol neu annhebygol fo hynny, mae stoc tai sylweddol yn y sir ar gyfer pobl sydd yn gweithio yma..

Byddai rhywun yn disgwyl i Adran Blaengynllunio mewn Cyngor Sir ystyried yn ofalus ac ategu i raddau, sylwadau gan Gyfarwyddiaeth Cynllunio y Llywodraeth ganolog. Nid yw'r bwriad i adeiladu 8,822 o dai rhwng 2018 -2033 yn gwneud hynny. Parhau i hybu mewnfudo pobl di- Gymraeg fydd canlyniad adeiladu'r nifer afresymol o uchel. Mae angen amser i weithredu polisiau blaengar y sir o ran Cymreigio ysgolion, gweithluoedd, prentisiaethau a sawl maes arall.

Mae gwaith y Mentrau yn ddigon heriol fel ag y mae, heb barhau i hybu y cyfnewid poblogaeth sydd mor niweidiol i'n hiaith gynhenid.
Mae'r gofid am ddiffyg dealltwriaeth yr Adran Blaengynllunio o flaenoriaethau ieithyddol y Cyngor Sir yn dwysau wrth edrych ar gymalau 11.173 Polisi Strategol SP8 yn honni:
***"Trwy amcanu at dwf cynaliadwy bydd y cynllun hefyd yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoeddi siaradwyr di-Gymraeg sy'n symud i mewn i'r sir gael ei hintigreiddio i fywyd cymunedol ar raddfa a chyflymder na fydd yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru"***
Nid oes unrhyw esboniad sut mae hyn fod digwydd.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 26.4% o boblogaeth y sir wedi eu geni "tu allan i Gymru". Mae hyn yn gynnydd o 2.4% ers 2011 ac yn fwy na hanner y gostyngiad o 4.1% yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y sir ers 2011. Nid yw'n ymddangos bod y polisi integreiddio yn un llwyddiannus iawn. Nid oes unrhyw dystiolaeth faint o'r 26.4% o boblogaeth y sir anwyd "tu allan i Gymru" sydd yn rhugl yn y Gymraeg.

Dull yr Adran Blaengynllunio o ateb cwestiynau o'r fath yw trosglwyddo cyfrifoldeb i adrannau eraill o'r Cyngor Sir, megis yr Adran Addysg. Cyfeiriwyd uchod at y lefel uchel o fewnfudo i'r sir yn 2017/18. Dadansoddwyd y garfan hynny gan y cwmni luniodd yr Asesiad Iaith. 'Roedd 30% o'r bobl ddaeth i'r sir yn 2017/18 yn 45 oed neu'n hŷn. [Atodiad 2.4, tud. 96 a 99/100].
Ydy'r Adran Blaengynllunio yn disgwyl i'r garfan yma fynychu ysgol Gymraeg?
**Mae diffyg tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau polisiau yn nodwedd o'r CDLl fel y mae**

Nid yw'r mewnfudo yn syndod o safbwynt economaidd na safon byw. Mae'r sir yn lle dymunol i fyw yn arbennig os yw eich sefyllfa economaidd yn un gysurus. Gyda graddfa llog mor isel, mae gwerthu tŷ a phrynu un arall cyfatebol am bris is yn ddull effeithiol o grynhoi swm sylweddol o arian. Erbyn Chwefror 2021, yn ôl Zoopla, gwerth cyfartalog tŷ yn Lloegr oedd £320,757 tra yng Nghymru y gwerth cyfartalog oedd £199,113. Mae'r bwlch wedi cau rhywfaint ers 2021 ond erys bwlch sylweddol rhwng pris cyfartalog tai yn y ddwy wlad.
Wrth gymharu prisiau tai, eto gan ddefnyddio Zoopla, mi wnaethom weld y gymhariaeth yma rhwng Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd o Loegr.

| | ***BIrmingham*** | ***Coventry*** | ***Guildford*** | ***Brighton*** | ***Caerfyrddin*** | ***Sir Gâr*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ pâr [semi] | £268k | £273k | £552k | £578K | £188k | £178k |
| Ar wahan | £463k | £427K | £1,047k | £786k | £321k | £334K |

Gwnaed yr ymchwil ym mis Mawrth 2023.
Mae tai ar werth yn y sir am £400mil, £500mil a mwy. Nid yw'n debygol bydd pobl leol yn medru prynu rhain.

Ceisiodd Mentrau Iaith y sir ganfod gan arwerthwyr tai, pwy sydd wedi bod yn prynu tai yn yr ardal yn ystod cyfnod y pandemig.. Mae'n siwr bod rhai wedi symud o ddwyrain Cymru a rhai wedi dychwelyd i'r sir. Ond mae'r cymhariaeth prisiau tai yn cynnig tystiolaeth ddigonol o fanteision ariannol symud o Loegr i Sir Gaerfyrddin. I'r Cyngor Sir, mae hyn yn fanteisiol ac mae'n siwr bod manteision i dirfeddianwyr, rhai busnesau a mwy o Dreth y Cyngor hefyd .
Ond rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar ein hetifeddiaeth unigryw wna'r mewnfudo. Er yn cydnabod bod rhai yn sicr o elwa o adeiladu 8,822 o dai rhwng 2018 – 2033, fel mudiad pwyso , mae Dyfodol i'r Iaith yn credu bod angen twf graddol a gofalus tra bod y polisiau i Gymreigio'r sir yn dwyn ffrwyth.

**Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol**
**Ystyriaethau a'r Dewis Gorau?**
Mae'r teitl yn egluro blaenoriaethau'r adran – y defnydd o ofod neu "defnydd tir", sef sail y gyfundrefn gynllunio. Nid effaith y defnydd tir ar bobl ond yn hytrach defnyddio'r gofod tir ar gyfer adeiladu gan ddadlau bod hynny yn arwain at welliannau economaidd. Honnir bod yr Adran Blaengynllunio yn ***"ystyried opsiynau a arweinir gan gyflogaeth."*** Mae hyn yn ganmoladwy os yw'n cael ei wireddu ac nad yw'r adran yn syrthio i'r fagl bod adeiladu yn unig yn arwain at ffyniant economaidd.
Mae'r Adran Blaengynllunio hefyd yn ystyried ***"cyfradd anheddau gwag***". Cyfeiriwyd at hyn eisoes. Mae ychydig llai na 2,000 o dai gwag yn y sir. Felly, pe bai gwelliant cyflogaeth yn y sir a hynny yn lleihau'r allfudo gan bobl ifanc y sir, mae tai gwag yma'n barod ar gyfer y gweithwyr. Mae hefyd nifer sylweddol o adeiladau gwag yn y trefi a chefn gwlad gellir eu haddasu'n gartrefi pwrpasol.

Dadl bellach gan yr Adran Blaengynllunio yw bod angen **"*cysylltu twf poblogaeth a thwf cyflogaeth amcangyfrifiedig*".** Ategir y bwriad trwy ychwanegu ***"Mae'r opsiynau a nodir yn rhagdybio bod datblygiadau tai heb gyfleoedd cyflogaeth yn yr un lleoliad eang, ac fel arall, yn llai cynaliadwy ac***

***y dylid eu hosgoi”*** Mae’r ddadl yn gywir, mae angen tai ar gyfer gweithwyr. Felly mae angen ystyried y rhagolygon economaidd a chyflogaeth yn ofalus. [gweler isod]

Digon bregus oedd y rhagolygon cyflogaeth wrth i’r Adran Blaengynllunio ystyried yr opsiynau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033. Rhoddwyd ystyriaeth i 6 opsiwn. Yr un â’r amcanestyniad lleiaf o ran twf y boblogaeth a’r newid poblogaeth oedd Amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018. Yn ôl y dadansoddiad hwn 4,359 o dai byddai eu hangen dros gyfnod y CDLl i ateb gofyniad o dwf yn y boblogaeth o 6,197. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn ac eraill, hyd yn oed yr un oedd yn amcangyfrif bod angen 5,670 o dai i ateb galw twf amcanestynedig o 9,460 o bobl dros gyfnod y CDLl. Hwn oedd “Amrywiolyn “Poblogaeth Uchel” Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.
*****Nid yw CDLl y Cyngor Sir yn talu sylw digonol i amcanestyniadau Llywodraeth Cymru*****

Mae pob un o’r opsiynau yn honni medru cysylltu’r adeiladu gyda “creu swyddi”. Yn amlwg bydd swyddi yn y maes adeiladu ac yn cynnig budd economaidd mewn rhai meysydd eraill. Ond eglurwyd eisoes bod nifer o bobl yn y sir yn chwilio am waith ac yn byw yn y sir. Hefyd, pa dystiolaeth sydd gan yr Adran Blaengynllunio mai swyddi lleol fydd yn cael eu creu gan “ddatblygwyr” mawr fel Persimmon? Mae’n bur debygol byddai nifer o’r gweithwyr yn dod o’r tu hwnt i’r sir, er mwyn ateb galw’r “datblygwyr” am weithwyr.
Nid oes pwrpas adeiladu tai os nad oes gwaith priodol i’r bobl fydd yn byw ynddynt, fel mae dyfyniadau’r adran yn ei gydnabod. Fel arall, y bobl ddaw i’r tai fydd pobl wedi ymddeol o’r tu hwnt i’r sir gan roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus lleol.

Ar ba sail gwrthodwyd yr opsiynau hyn?
Dyma eglurhad yr Adran Blaengynllunio am wrthod yr opsiynau eraill:
***“O ystyried yr effeithiau negyddol posibl amlygir uchod, nid ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy’n seiliedig ar 2018 ar gyfer y CDLl Diwygiedig. Ni fyddai’n cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.”***

Gan nad yw’r Cyngor Sir yn barod i dderbyn dadansoddiadau Llywodraeth Cymru, mae angen ystyried pwy sydd fwyaf realistig [isod].
Cawn eto yn sylwadau’r adran y cysylltiad hollol aneglur rhwng adeiladu a chadw pobl ifanc yn y sir. Mae ymateb Cymdeithas yr Iaith i’r honiadau annelwig yn llygad ei le:
***“Nid yw gobaith ac uchelgais yr un peth â tystiolaeth”.*** Yn union.

Fwy nag unwaith, mae’r Adran Blaengynllunio yn nodi bod sylw wedi ei roi i’r Asesiad Effaith ar y Gymraeg wnaeth y Cyngor Sir yn 2019. ‘Roedd hyn i’w groesawu. Prin yw’r cynghorau sydd yn rhoi’r fath ystyriaeth i effaith cynllunio ar ein hiaith genedlaethol. Ond mae angen ystyried a chofio mai trafod y Strategaeth a Ffefrir blaenorol, sef adeiladu 8,835 o dai wnaeth yr Asesiad. Mae’r Opsiwn a Ffefrir newydd yr un mor debygol o achosi niwed mawr i’r Gymraeg a gwneud gwaith yr asiantaethau ar y Fforwm Iaith, a mudiadau eraill yn fwy heriol fyth. Anwybyddwyd yr opsiynau oedd yn cynnig twf graddol a fyddai’n cynnig cyfle i’r holl waith adfer y Gymraeg ddwyn ffrwyth dros gyfnod y Cynllun Datblygu.

**Y Rhagolygon Economaidd:**
Uchod, fe gawsom awgrym fod yr Adran Blaengynllunio yn cyplysu adeiladu tai gyda anghenion cyflogaeth y sir. Felly, beth yw’r rhagolygon economaidd erbyn hyn?
Mae’r CDLl diweddaraf yn rhoi pwyslais trwm ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe i greu swyddi a ffyniant. Y ddau brosiect pwysicaf yn y sir yw’r Egin lle mae canolfan S4C a Pentre’r Awel ger Llanelli. Yn y CDLl diwethaf, ceisiwyd ein perswadio byddai Canolfan yr Egin yn diogelu ac , o bosib, yn hybu’r Gymraeg yn yr ardal. Tua 50 o swyddi yn uniongyrchol gysylltiedig â S4C sydd yno. Gerllaw bwriadwyd adeiladu 1,200 o dai. Ar gyfer pwy oedd y rhain?

Piler arall yn twf economaidd arfaethedig y sir yw Pentre Awel ar gyrion Llanelli. Y targed dros y 15 mlynedd nesaf yw "creu hyd at 2,000 o swyddi" a rhoi "hwb o £467 miliwn i'r economi". Yn yr union ardal, collwyd mwy na 200 o swyddi yn ffatri Schaeffler a 90 arall o ffatri Calsonic yn gymharol ddiweddar. Yn ystod cyfnod Covid cauodd ffatri AIM Altitude yn Dafen a cholli 100 o swyddi da ychwanegol. Dyma tua 400 o weithwyr lleol a fyddai ar gael, gyda'r hyfforddiant priodol, i weithio yn Pentre Awel , ac sydd yn byw mewn tai yn yr ardal eisoes. Mae Llanelli yn ne ddwyrain y sir ac yn gyfleus i Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot, ychydig i'r dwyrain, all ddiwallu anghenion Pentre Awel, heb fynd ati i adeiladu miloedd yn rhagor o a dai yn yr ardal.

Cyflymodd y pandemig y tueddiad oedd eisoes yn bodoli i siopa arlein.Yn anffodus, bydd llawer rhagor o weithwyr yn colli eu swyddi oherwydd hyn. Mae Debenhams wedi cau yng Nghaerfyrddin a siopau eraill eisoes wedi diflannu o ganol y dref. Bydd yr un patrwm yn digwydd mewn trefi fel Llanelli a Rhydaman. Digon trist yw canol tref Llanelli ar hyn o bryd ac mae'n gysur deall bod trafodaethau wedi digwydd i newid cymeriad ac adfywio'r ardal. Mae'n dda gweld nifer o siopau llai yn agor, ond go brin gallant gynnig y nifer o swyddi oedd yn y siopau cadwyn mawr. Yng nghefn gwlad, 'rydym wedi gweld cau nifer o ganghennau y banciau mawr a cholli swyddi yn sgîl hynny. Dyma rhagor o weithwyr sydd eisoes yn byw mewn tai yn y sir ac yn barod i weithio.

Dylai cynllunio adferiad canol trefi'r sir fod yn flaenoriaeth i'r Adran Blaengynllunio. Eisoes, mae nifer o gynghorau yn paratoi i addasu natur canol trefi, gan gynnwys adnoddau hamdden a throi siopau gwag yn aneddiadau pwrpasol i drigolion lleol. Nid adeiladu miloedd o dai yw'r flaenoriaeth, ond sicrhau gwaith sydd yn gweddu i'r sir ar gyfer pobl sydd, ar y cyfan, eisoes yn byw yma.

Mae dogfen "*Plans for Carmarthenshire's economic recovery and growth*" yn gwneud y pwynt
*"It sets out the authority's aims to help businesses replace more than 3,000 jobs that have already been lost during the pandemic and safeguarding and replacing up to 10,000 jobs that may have been, or are at high risk of being lost when furlough ends"*
Mae diogelu swyddi a chreu swyddi i ateb gofynion poblogaeth bresennol y sir yn ddigon o her. Go brin fod angen 8,800 o dai ychwanegol allai ddenu pobl a fyddai'n ennill y blaen ar y trigolion lleol o ran cael y swyddi a gollwyd.

Mae ***"uchelgeisiau economaidd y sir"*** yn ddelfryd digon canmoladwy ond mae'n ymddangos mor bell o realiti â rheinosoros yn dawnsio bale! Twf graddol a gwella'r isadeiledd yw'r uchelgais realistig ac mae'r adran ar ddatblygu gwledig yn cynnig arweiniad deallus i'r cyfeiriad yma. Enghraifft o'r hyn gellir ei wneud yn realistig yw'r defnydd o'r £36.8 miliwn o Gronfa Rhannu Cyfoeth y DU ar gyfer cymdeithasau a busnesau cymunedol a phrosiect Llwybrau Cerdded a Seiclo Dyffryn Tywi.

**Dogfennau Poblogaeth a Thai:**
Mae adrannau Blaengynllunio yn astudio dogfennau sydd yn ceisio rhagweld tueddiadau poblogaeth ac aneddiadau**.** Nid yw'r rhain yn ragolygon pendant o'r hyn fydd yn digwydd ond yn amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau, Mae nifer ohonynt yn cadarnhau yr hyn sydd yn gynyddol amlwg i ni.
**Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru: 2020** [Llywodraeth Cymru , Mai 20 2020]
**"Gan edrych ar awdurdodau lleol, yn Sir Gaerfyrddin y cafwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd mudo a newidiadau eraill yn ystod y cyfnod 2017/18. Gwelwyd newid naturiol negyddol yn y pedwar awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau. Roedd y newid naturiol negyddol uchaf yn Sir Gaerfyrddin"**
Mewn geiriau eraill, mae mwy wedi marw na cael eu geni yn y sir a hynny ar raddfa uwch na'r dair sir arall. Ond oherwydd mudo, 'roedd **" y newid yn y boblogaeth oherwydd mudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol".** Ystyr "cadarnhaol" yw cynnydd i'r ystadegydd, ond i garedigion y Gymraeg, golyga her ychwanegol o geisio cymathu mwy fyth o bobl di-Gymraeg.

Mae Stats Cymru yn cynnig cyfansymiau ar gyfer 2016/7.

2016/7 - Mewnlif mewnol [o fewn y DU] 6,702 All-lif mewnol 6,080

Yn 2018/19 - Mewnlif mewnol [o fewn y DU] 6,900 All –lif mewnol 5,900

[Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar 2018/19]

Pa fath o bobl sydd yn mudo? Gwyddom bod nifer sylweddol o bobl ifanc yn gadael y sir yn flynyddol. Pwy sydd yn cymryd eu lle? Ai pobl ifanc fydd yn dychwelyd i'r sir neu fewnfudo gan bobl oed gwaith fel y mae'r Adran Blaengynllunio yn darogan wrth adeiladu gymaint o dai?

Mae **Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, Cymru [diwygiedig]** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, yn ceisio rhagweld yr hyn sydd yn debygol o ddigwydd. Mae'n rhagweld cynnydd o 2.4% ym mhoblogaeth y sir erbyn 2028, fyddai'n dod â chyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin i 192,100. Mae hyn 1.7% yn uwch na'r amcanestyniad yn seiliedig ar ffigurau 2014. Beth fydd yn ysgogi'r cynnydd yn y boblogaeth?

**"Amcanestynnir y bydd mudo yn ychwanegu at faint y boblogaeth ar gyfer mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2018 -2028......Fodd bynnag, ar gyfer y mwyafrif o awdurdodau lleol, bydd mudo net positif yn uwch na'r newid naturiol negatif, gan arwain at gynnydd cyffredinol yn y boblogaeth"**

[Cofier ystyr "positif" a "negatif" i'r ystadegwyr}

Gwireddwyd y ddamcaniaeth yng nghyfrifiad 2021. Cynyddodd y ganran anwyd "tu allan i Gymru" o 24% i 26.4%.

Sir Gaerfyrddin - 2021 Geni1,540 Marw 2,592 2020 Geni 1,660 Marw 2,404
2019 Geni 1,744 Marw 2,202 2017 Geni 1,817 Marw 2,230
2016 Geni 1,878 Marw 2,266 .... yr un patrwm ers 2001/2

Lleihad yn nifer y bobl 16 -64 oed fydd yn 17 o'r awdurdodau lleol, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin. Dyma'r bobl mae'r Adran Blaengynllunio yn ei honni fydd yn dod i fyw yn y tai sydd i'w hadeiladu. Yn wir, mae'r graff ar dudalen 5 o'r Asesiad Iaith yn dangos mai cynnydd yn yr oed 65+ a 75+ sydd yn debygol rhwng 2018 – 2028. Yn ogystal â chreu heriau i'r gwasanaethau cymdeithasol nid yw'r ystod oedrannau hyn yn debygol o ddysgu Cymraeg. Felly, rhagweld y patrwm o fewnfudo a hynny'n cynnwys canran sylweddol o bobl mewn oed, ac allfudo gyda nifer sylweddol o bobl ifanc a addysgwyd yn y sir wna'r dadansoddiad. Mae hefyd yn rhagweld y patrwm o'r raddfa marwolaethau yn parhau i fod yn uwch na'r raddfa genedigaethau hyd 2028.

Mae dogfennau swyddogol yn dangos symudiad graddol ond clir at rentu ar draul perchnogaeth. Mae'r ddogfen ***Dwelling Stock Estimates*** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 yn nodi bod 9,200 o aneddiadu yn y sir yn cael eu rhentu oddi wrth y Cyngor lleol a 3,200 oddi wrth landlordiaid cymdeithasol. Mae'n siwr bod angen cartrefu pobl mewn angen a chynnig aneddiadau addas iddynt. Ond mae rhywfaint o bryder fod nifer o'r cartrefi cymdeithasol yn y sir yn cael eu gosod i bobl o Loegr ac os yw hyn yn digwydd mae'n sicr o wanhau'r iaith ymhellach.

Tuedd arall sydd eisoes wedi cychwyn ac yn debygol o gyflymu yw cartrefi addas i un person. Y disgwyl yw bydd y galw am y math yma o annedd yn cynyddu 27% erbyn 2039. Mae angen i adrannau Blaengynllunio fod yn ymwybodol o'r tueddiadau hyn ac addasu'r amcanestyniadau yng ngoleuni'r datblygiadau a'r dystiolaeth.

**Yr Adran Blaengynllunio, Llywodraeth Cymru a'r Gymraeg:**

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae cyfeiriad at le'r Gymraeg mewn nifer o ddogfennau y Llywodraeth. Mae'r CDLL yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn cynnwys yr amcan i greu

***"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu"***

***** Nid yw adeiladu tai fydd yn denu rhagor o fewnfudwyr di- Gymraeg yn gyson â'r amcan hyn**.

Yn wahanol i'r CDLl drafft blaenorol,mae un cyfeiriad y tro hwn at ddogfen Llywodraeth Cymru ***"Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050"*** . Yna cawn " *I gyrraedd y nod hwn bydd y Cyngor yn cefnogi,hyrwyddo a gwella'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw trwy sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth a thai digonol a chymesur i gynnal cymunedau gwledig a threfol y sir a thrwy roi fframwaith monitro effeithiol ar waith"*
Gallwn groesawu'r bwriad i gynnig cyflogaeth deilwng a digonol i bobl y sir. Yn ein barn ni, nid oes angen 8,822 o dai i wireddu'r bwriad. Mae angen eglurhad ar y gyfundrefn monitro achos mae ffigurau Cyfrifiad 2021 yn dangod na fu yn effeithiol, os yw'n bodoli o gwbl. Gostyngodd y ganran o siaradwyr Cymraeg y sir o 44.0% i 39.9% Yn rhyfeddol, mae'r ddogfen yn cyfeirio at Gyfrifiad 2011 ac nid un 2021!
** Dyma enghraifft arall o dalu sylw annigonol i bolisi cydnabyddedig Llywodraeth Cymru a hynny mewn sir gyda nifer sylweddol o siaradwyr yr iaith, er gwaethaf y dirywiad pryderus**
Mae dogfen y Llywodraeth *Miliwn o Siaradwyr"* yn cydnabod allfudiad nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg o'u broydd a mewnlifiad pobl hŷn. Yna, mae'r ddogfen yn gwneud pwynt byddai'n fuddiol i'r Cyngor Sir ei ystyried a gweithredu arno, os yw o ddifrif eisiau cynnal a hybu'r Gymraeg:

***Mae hyn yn galw am gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir"***
Nid oes afflwydd o dystiolaeth yn y Strategaeth a Ffefrir bod y sir yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb yn y broses o gynllunio ieithyddol.
** Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei ffurf bresennol wedi deall oblygiadau gofyniad llywodraeth Cymru**
Mae'n siwr fod yr Adran Blaengynllunio ac felly'r Cyngor Sir yn deall bod trefn hierarchaidd i'r gyfundrefn gynllunio yng Nghymru. Islaw Trefn Gynllunio Cymru daw Cymru'r Dyfodol***.*** Mae'n bolisi allweddol bwysig yn y gyfundrefn gynllunio:
***Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar lefel genedlaethol"*** a
***"Mae'n ofynnol i CDSau a CDLlau gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol a rhaid iddynt gael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cydweithio'n effeithiol"*** [tudalen 6]

Felly, pa mor agos yw'r berthynas rhwng y Strategaeth a Ffefrir gan yr Adran Blaengynllunio a chanllawiau Cymru'r Dyfodol, yn benodol o ran cyfanswm y tai sydd eu hangen? Addaswyd rhanbarth y de Orllewin ar gyfer fersiwn derfynol Cymru'r Dyfodol. Bellach , mae'r rhanbarth yn cynnwys siroedd Penfro, Caerfyrddin, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
Amcan gyfrif canolog fersiwn derfynol ***Cymru'r Dyfodol*** yw bydd angen **25,600 o dai ychwanegol rhwng 2018/19 a *2038/9.*** Mae hyn yn ymestyn pum mlynedd tu hwnt i ddiwedd cyfnod Cynllun Datblygu Lleol y sir.
Gan fod cyfnod o 20 mlynedd ar gyfer yr amcan gyfrif canolog rhanbarth de- Orllewin Cymru'r Dyfodol, gallwn rannu'r 25,600 gyda 20 a chael ***1,280***. Dyma nifer y tai ychwanegol sydd eu hangen yn ***flynyddol***, ***ar draws y 5 awdurdod*** i gyrraedd y targed. O rannu'r 1,280 ar draws y 5 awdurdod, , cawn mai dim ond 256 o dai ychwanegol sydd angen i bob awdurdod adeiladu'n flynyddol i gyrraedd at 25,600. Yn olaf, er mwyn gweld faint o dai sydd angen i Sir Gâr adeiladu dros 15 mlynedd y CDLl mae angen ***lluosi 256 â 15 = 3,940 tŷ ychwanegol.***
Hyd yn oed o rannu'r 25,600 rhwng y pump awdurdod cawn y cyfanswm o 5,120 i bob sir ond mae hynny dros gyfnod o ugain ac nid pymtheg mlynedd.
Byddai rhai yn dadlau bod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro mor fach, fel y gellid ei anwybyddu bron wrth geisio darogan cyfansymiau tai yn y siroedd. O wneud hynny a rhannu 25,600 rhwng 4 awdurdod cawn gyfanswm o 6,400, ond eto dros ugain ac nid pymthrg mlynedd y CDLl

Pa bynnag ddansoddiad a ffefrir, mae'n sylweddol llai na'r 8,822 yn y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor Sir. Mae'r rhain yn dargedau llawer mwy rhesymol o gofio bod tua 2,000 o dai gwag yn y sir yn 2022 heb sôn am adeiladau gwag eraill a'r tai ar werth.

** Dyma enghraifft arall o' Adran Blaengynllunio/Cyngor Sir yn talu sylw annigonol i ganllawiau clir Llywodraeth Cymru yn nogfen Cynllunio allweddol "Cymru'r Dyfodol".

Annelwig yw canllawiau'r ddogfen ar sut i sicrhau sefyllfa ***"sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd".***
Mae cyfeiriadau at ***"y gydberthynas rhwng tai strategol, trafniadaeth a thwf economaidd a'r Gymraeg"*** cyn gofyn i'r CDLlau gynnwys ***"hierarchaethau aneddiadau pholisiau dosbarthu twf"*** ar gyfer creu'r amodau priodol i sicrhau ffyniant y Gymraeg. Penagored ac annelwig yw'r cysyniadau hyn, ond o gadw at y targed canolog dylai fod modd datblygu strategaethau cymathu priodol dros 15 mlynedd cyfnod y CDLL.
Serch hynny mae heriau penodol yn wynebu Mentrau Iaith y sir. ***"Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn nodi dylai ffocws twf yn rhanbarth y De-orllewin fod yn ardal Bae Abertawe a Llanelli".*** O fewn y sir, mae'r ardal yn cynnwys tref Seisnigedig Llanelli, lle mae'r canrannau isaf o siardawyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiadau 2011 a 2021, ond drws nesaf yr ardaloedd â'r canrannau uchaf, sef Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman. Bydd "datblygu" sef adeiladu sylweddol pellach yn y dref, ac yn arbennig yng nghymoedd Aman a'r Gwendraeth, yn rhoi pwysau enfawr ar y Gymraeg. Bydd her ychwanegol hefyd yn ardal Caerfyrddin sydd wedi ei ddynodi fel***" ardal twf rhanbarthol"***. Mae'n bosibl bydd "datblygwyr" a'r Adran Blaengynllunio yn dadlau bod angen tipyn mwy na'r 3,900 neu 5,120 neu hyd yn oed 6,400 o dai os oes datblygu/adeiladu, yn ardal Llanelli a Chaerfyrddin. Ar y llaw arall, mae nifer sylweddol o dai gwag yn y sir ac hefyd nifer o bobl eisoes yn chwilio am waith. Nid yw cyfanswm y tai gwag yn cynnwys y Tai ar Werth. Dyma gronfa ychwanegol o aneddiadau i ddiwallu anghenion gweithwyr yn y sir. Felly, nid oes modd gweld angen am lawer mwy na 5,000 o dai fan pellaf o ystyried y rhagolygon economaidd ansicr. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio nad yw'r Cyngor Sir yn gwybod faint o dai sydd Ar Werth yny sir. Mae'r tai yma ar gael ar gyfer unrhyw ddatblygiad cyflogaeth.

Mae'r pwyslais ar dai fforddiadwy a chymdeithasol yn ateb anghenion y sir a chawsom atebion derbyniol gan yr Adran Tai ynglŷn ag ail osod tai gwag yn aneddiadau.Adeiladu tai cymdeithasol a fforddiadwy, gyda fforddiadwy yn ategu cyflogau lleol sydd ei angen, gyda'r lleiafswm angenrheidiol o dai ar y farchnad agored all sicrhau elw i gwmniau lleol. Nid dyma fwriad y Strategaeth a Ffefrir.Yn wahanol i ganllawiau Llywodraeth Lafur Cymru, mae'n agor y drws i fewnfudo pellach a gwneud gwaith heriol asiantaethau'r Fforwm a mudiadau Cymraeg eraill hyd yn oed yn anos.
Mae Ms Meinir Jones, ar ran Comisiynydd Iaith Cymru, yn gwneud yr union bwynt wrth ymateb i'r CDLl blaenorol. Mae'n anodd credu y byddai yn newid ei barn o gofio mai gostyngiad o 13 welwyd yn y cyfanswm tai bwriedir eu hadeiladu nawr yn y CDLl newydd ***"Mae'r targed newydd o ran tai, sef 8,835, yn llawer uwch na'r angen am dai newydd yn seiliedig ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru"*** [tud.184 cofnodion y Cyngor Sir, Ionawr 2021]]

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Cynllun Datblygu Lleol:
Ar ran Llywodraeth Cymru mae Mark Newey yn codi cwestiynau perthnasol am y CDLl cyntaf..
Mae'n tynnu sylw at y twf naturiol negyddol ym mhoblogaeth y sir, cyn nodi:
***"The authority must fully evidence and explain how the scale of growth relates to the latest projections taking account of housing need and impacts on the Welsh language. The evidence needs to demonstrate where the in-migration will be derived from i.e. neighbouring counties, elsewhere in Wales, the UK or international migration" [***tud 182 cofnodion y Cyngor Sir]

Dyma'r math o wybodaeth mae'r Mentrau Iaith wedi ceisio ei ganfod gan yr Arwerthwyr Tai lleol.

Mae tystiolaeth Dylan Phillips ar Gyfrifiad 2011 yn awgrymu'n gryf mai o Loegr daeth nifer i gefn gwlad y sir. Mae fersiwn drafft y CDLl yn cydnabod mai mewnfudo sydd yn gyfrifol am y twf yn y boblogaeth [tud 2] ac mae Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru yn dod i'r un casgliad [ tud 2]. Ond pa un ai o Loegr neu ardal Seisnigedig o Gymru daw y mewnfudo mae'n rhwym o arwain at wanhau'r Gymraeg yn y sir.
Mae Mark Newey hefyd yn feirniadol o ddosbarthiad gofodol/spatial distribution y CDLl gan godi amheuaeth am ei effaith ar y Gymraeg.
Mae hyd yn oed yn codi amheuon am effaith y CDLl ar ardaloedd gwledig y sir, er fod y rhan hwnnw o'r cynllun yn dangos ymwybyddiaeth o ddatblygu gofalus a phwysigrwydd y Gymraeg a'n diwylliant cynhenid.
***"The Council's Rural Needs Study" 2019 states that in rural settlements there is a predominant need for affordable homes. ..it is likely that the majority of housing delivered in these settlements will be for market housing. The study also highlights that half of the properties sold in these areas are likely to be for people outside the County Borough. The policy appears at odds with the evidence base.It is unclear how this approach aligns with findings in the SA/SEA, which identifies that growth and inward migration has the potential to dilute the Welsh language"[*** tud. 814 cofnodion y Cyngor Sir]

**Fel mae'n sefyll ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dangos fwy o ymwybyddiaeth o effaith y CDLl ar y Gymraeg na'r Cyngor Sir. Mae llawer gwell dealltwriaeth ein bod yn sôn am gyfnewid poblogaeth Gymraeg am un Saesneg o ran iaith. Mae targed tai Cymru'r Dyfodol hefyd yn cynnig llawer gwell cyfleon i'r Gymraeg nag amcanestyniad ffuantus yr Adran Blaengynllunio.**

Y Cyngor Sir:
Ateb y Cyngor Sir i'r sylwadau beirniadol oedd y byddai rhagor o ymchwil cyn dod i benderfyniad terfynol. Nid yw'n ymddangos bod fawr ddim wedi newid o ran Strategaeth Twf a'r cyfanswm tai. Ond cynhaliodd y Cyngor Sir Asesiad Iaith o effaith y CDLl ar y Gymraeg. Prin yw'r awdurdodau sydd wedi ymgymryd â'r fath ymchwil ac mae sir Gaerfyrddin i'w ganmol am wneud. Fel nodwyd eisoes gwendid sylfaenol yr Asesiad oedd ei fod yn asesu effaith y Strategaeth a Ffefrir, oedd yn argymhell adeiladu 8,835 o dai. Ni ystyriwyd yr opsiynau mwy realistig o'r cyfanswm tai sydd eu hangen. Serch hynny, mae'r Asesiad yn dod i gasgliad tebyg i Dylan Phillips a Llywodraeth Cymru:
***Mae'r holl senarios yn rhagdybio mai mewnfudo net fydd prif sbardun newid yn y boblogaeth. Er na ddywedir hynny'n benodol, rhagdybir y bydd newid naturiol yn parhau i fod yn negyddol gan leihau'r gronfa neu stoc o siaradwyr Cymraeg presennol dros amser"*** [atodiad 2.5 pwynt 17, tud 108]
Mae'r sylwadau ar pa mor ddibynadwy yw amcanestyniadau'r Cyngor Sir yn ddamniol. Dyma ddyfyniad o ***"Methodoleg Asesu'r Effaith ar y Gymraeg" - par 55 "Yn nhermau gwireddu amcanestyniadau poblogaeth, amcanestyniadau aelwydydd a thwf economaidd, nid yw cysondeb gwireddu amcan estyniadau yn arbennig o da"*** Yn union**.**

Y gobaith yw bod penderfyniad y Cyngor Sir a basiwyd ym mis Gorffennaf 2019 yn mynd i'w weithredu'n gyson. Dynodwyd y sir gyfan yn un o *"sensitifrwydd ieithyddol"* ac ymhellach fod yr iaith **"***yn ystyriaeth Gynllunio Berthnasol"*
- Ym mhob cais i adeiladu 5 tŷ neu fwy yn yr ardaloedd gwledig a
- Ym mhob cais i adeiladu 10 tŷ neu fwy yn yr ardaloedd trefol.

Gall hwn fod yn arf cryf i rwystro adeiladu di-angen yn y sir ac mae'n glod fod y sir gyfan wedi ei ddiffinio fel un o sensitifrwydd ieithyddol. Wrth gwrs, mae'n dibynnu pwy sydd yn ymgymryd â'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Yn y gorffennol, gadawyd i'r "datblygwyr" fwrw ati! Gan fod y Cyngor yn gweld y sir gyfan fel un o sensitifrwydd ieithyddol, mae'n anodd deall pam fod yr un Cyngor yn gweld yr angen i adeiladu 8,822 o dai dros gyfnod y CDLl, sydd yn ôl nifer o asiantaethau yn debygol o wanhau'r Gymraeg.

Yn y gorffennol ‘roedd cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn agosach ati:

***“mae’n debyg taw tua 6,000 o dai fydd y targed am y cyfnod 2021- 2033”*** oedd geiriau’r Cadeirydd mewn erthyglau yn y papur lleol yn 2018. Rhaid gobeithio y daw ef a’r Cyngor Sir i sylweddoli fod hwn, er yn darged gormodol, yn agosach ati ac y cawn newid sylweddol yn y cyfanswm tai o 8,822 dros gyfnod y CDLl, sydd yn debygol o fod yn ergyd drom bellach i’r Gymraeg yn y sir dros y ddegawd nesaf.

Fel y mae, nid yw Dyfodol i’r Iaith yn medru cefnogi’r Cynllun Datblygu Lleol.
Nid yw’n briodol i Sir Gaerfyrddin yng ngoleuni’r dystiolaeth yn yr Asesiad Iaith na pholisiau Llywodraeth Cymru. Mae’n talu sylw annigonol i bolisiau cenedlaethol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Miliwn o Siaradwyr, heb sôn am Cymru’r Dyfodol sydd yn ganllaw statudol o bwys yn y gyfundrefn Cynllunio. ‘Rydym o’r farn bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ansad a bod angen lleihau’n sylweddol y cyfanswm tai bwriedir eu hadeiladu.

Dyfodol i’r Iaith Sir Gaerfyrddin Mawrth 2023